

Y TYYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 155

Rhif 12

Mawrth 24, 2022

50c.

Y CYNNYDD ARUTHROL YM MHRIS TANWYDD Llythyr y Llywydd at y Canghellor

Cafodd y cynnydd aruthrol ym mhpris olew, nwy a thrydan ei godi yng nghyfarfod Adran Dinasyddiaeth yr Undeb wythnos ddiwethaf. Fe glywodd y cynrychiolwyr rai ffeithiau digon diflas am y sefyllfa, sy'n ganlyniad y rhyfel yn Wcráin yn bennaf, er nid yn gyfan gwbl. Bydd yr effaith ar deuluoedd sydd ar incwm isel, yn enwedig, yn ddifrifol.

Mae cost gwresogi ein cartrefi am godi'n sylweddol. Ac fe fydd pris bwyd yn codi yn y siop neu archfarchnad, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn costau cludiant, am fod pris disel yn codi'n ddiwedd. Bydd hyn i gyd yn ychwanegu'n sylweddol at gostau byw pobl, gan achosi caledi gwirioneddol i lawer. Ar ben hynny daw'r cynnydd o 1.25% mewn Yswiriant Cenedlaethol a fydd yn effeithio ar bawb sydd yn ennill mwy na £9,500 y flwyddyn.



Ergyd arall i amaeth

Disel sy'n rhedeg economi'r byd. Dyna, yn bennaf, yw tanwydd llongau, trenau, lorïau a thractorau. Nid cost cludo bwyd yn unig sy'n

codi, ond y gost o'i gynhyrchu gan fod ffermwyr yn defnyddio disel. Er eu bod nhw'n cael disel lliw coch yn rhatach na'r disel arferol, mae pris hwnnw wedi codi o 75c i 120c y litr. Mae'r Deyrnas Unedig yn cael 18% o'i ddisel o Rwsia. Fe glywodd Pwyllgor Dethol y Trysorlys y gallai pris disel godi i £3 y litr, ac efallai bydd yn rhaid ystyried ei ddogni. Ar yr un pryd, fe wnaeth cwmni olew BP elw o \$12 miliwn y llynedd.

Cost gwresogi'r cartref

Olew (Kerosene) yw'r tanwydd sy'n gwresogi 18% o gartrefi Cymru, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig, sydd â thanc olew eu hunain y tu fas i'r tŷ. Mae pris olew o'r fath wedi codi o 68c y litr fis diwethaf i tua £1 y litr erbyn hyn.

Roedd pris nwy yn codi'n sylweddol cyn y rhyfel yn Wcráin oherwydd nad oedd digon i gwrdd â'r galw yn fyd-eang. Mae cwsmeriaid yn wynebu cynnydd o £700 y flwyddyn ar gyfartaledd, gyda TAW ar ben hynny.

Mae pris uned trydan wedi codi o 20c i 28c – sy'n gymharol gymedrol o ystyried y sefyllfa. Ond bydd y Tâl Sefydlog (Standing Charge) wedi dyblu ers 2019, gan godi o 24c y dydd i 43c. Rhaid talu hwnnw – waeth faint bynnag o drydan rydych yn ei ddefnyddio.

O ganlyniad i hyn i gyd, disgwylir i fil ynni pob teulu, ar gyfartaledd, i fod dros £3,000 yn fuan.

Llythyr gan y Llywydd

Derbyniwyd penderfyniad gan yr Adran, ac yna gan y Cyngor, i ysgrifennu ar frys at y Canghellor, Rishi Sunak, a fydd wedi gwneud Datganiad y Gwanwyn ar y sefyllfa gyllidol ar 23 Mawrth.



Llun: BBC

17 Mawrth 2022

At sylw'r Gwir Anrhydeddus Rishi Sunak AS

Annwyl Rishi Sunak,

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd fy swydd fel Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sy'n cynrychioli Cristnogion Anghydfurfiol sy'n cyfarfod mewn 350 o gapeli yng Nghymru.

Mewn cyfarfod o gyngor yr Undeb yr wythnos hon, mynegwyd pryder difrifol am yr effaith y bydd y codiad aruthrol mewn pris tanwydd yn ei gael ar gost gwresogi cartrefi a phris bwyd, a'r cynnydd mewn chwyddiant a fydd yn siŵr o ddilyn gyda'r darogan y bydd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cyrraedd uchafbwynt o 7% y gwanwyn hwn.

Mae amaethyddiaeth yn ddiwydiant hynod bwysig yng Nghymru, a bydd cost gynyddol disel, er gwaetha'r cymhorthdal, yn cynyddu cost cynhyrchu bwyd, gyda hwnnw'n cael ei drosglwyddo i gwsmeriaid. Oni bai am hynny, fe allai ffermwyr fynd allan o fusnes.

Gan fod y Trysorlys wedi casglu £2.9b yn ychwanegol mewn treth tanwydd a TAW wrth i bris petrol a disel godi, awgrymwn yn barchus eich bod yn ystyried ei ddefnyddio i ariannu toriad dros dro yn y gyfradd TAW ar ddisel. Byddem hefyd yn eich annog i ystyried o ddifri codi treth anarferol (windfall tax) ar gwmnïau olew mawr sy'n gwneud biliynau o bunnau o elw'r dyddiau hyn.

O ran gwresogi cartrefi, rydym yn gwerthfawrogi eich bod eisoes wedi cyflwyno mesurau lliniaru megis y cynllun benthyciadau o £200, yr ad-daliad treth gyngor o £150 a'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes o £140 i'r rhai sy'n gymwys. Rydym hefyd yn cydnabod cost ddigynsail y pandemig Covid.

Ond wrth i filiynau o deuluoedd sy'n gweithio wynebu cynnydd yr un mor ddigynsail mewn costau tanwydd, rydym yn eich annog yn barchus i gymryd camau lliniaru pellach – hyd yn oed os ydynt dros dro.

Yn olaf, byddem yn croesawu'n gynnes fuddsoddi cyflymach gan y Deyrnas Unedig mewn ynni glân, er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau'r ddibyniaeth ar fewnforion tanwydd ffosil sydd ar drugaredd gwrthdaro rhyngwladol.

Yn gywir

Y Parch Beti-Wyn James,

Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

(Cafwyd llythyr personol o ymateb gan Rishi Sunak ar fater arall a godwyd gan Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin ddechrau'r flwyddyn hon. Erbyn i chi darllen hwn, mae'n debyg y byddwn yn gwybod beth fu'r ymateb i apêl y Llywydd a sawl mudiad a chymdeithas arall fu'n ei lobio ar y testun yma.)

Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn

Cynhaliwyd y cwrdd chwarter ar nos Fawrth, 22 Chwefror, yn Ebeneser, Rhosmeirch. Yr oedd 15 yn bresennol yn cynrychioli amryw eglwysi'r Cyfundeb. Y cadeirydd oedd y Parchg Ron Williams, Tabernacl, Porthaethwy.



1. Wedi gair o groeso gan y Cadeirydd, yr oedd y defosiwn yng ngofal yr ysgrifennydd, Mr Edward Morus Jones. Diolchwyd iddo gan y cadeirydd.

2. Ymddiheuriadau.

Derbyniwyd nifer helaeth, gan gynnwys y Trysorydd.

3. Cofnodion.

Cafwyd un cywiriad bychan i enw cynrychiolydd cyn eu derbyn fel rhai cywir.

4. Materion yn codi.

Cafwyd diweddariad am nifer fechan o faterion oedd wedi cael sylw yn ystod y cyfnod ers y Cwrdd Chwarter diwethaf.

5. Gohebiaeth.

(a) Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn chwilio am drysorydd newydd. (b) Cynrychiolaeth ar bwyllgor gwaith y Cyfundeb. Cymeradwywyd y rhai a enwyd, sef, Janet Jones (Glannau Menai), Gwynfor Roberts (Cefni), Richard Williams (Cybi) a Maldwyn Roberts ('Y Traethau'). (c) Dyddiadau cyfarfodydd gweddill 2022: 24 Mai, 27 Medi a 22 Tachwedd. (ch) Lleoliadau'r cyfarfodydd chwarter: Gofynnwyd am wahoddiadau gan yr eglwysi. (d) Swyddogion y Cyfundeb. Yn y cyfnod anodd y bu'r Cyfundeb trwyddo yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, bu i'r Parchg Jim Clarke a Ron Williams gynnig eu gwasanaeth fel Cadeiryddion. Bellach,

gyda'r sefyllfa wedi gwella, mae angen ethol Is-gadeirydd ar gyfer y cyfnod nesaf. Gofynnwyd i bawb roi ystyriaeth i hyn cyn y cyfarfod nesaf. (dd) Oedfa Sul y Cyfundeb (Sul cyntaf o Fai) yn Ebeneser, Rhosmeirch. Gofynnwyd a oedd yr oedfa i'w chynnal eleni? Wedi ystyried y sefyllfa bresennol, penderfynwyd pwylllo ac anelu at gynnal yr oedfa y flwyddyn nesaf. (e) Cododd cwestiwn o'r llawr parthed addasrwydd unigolion nad ydynt yn athrawon wrth eu galwedigaeth i fod yn athrawon Ysgol Sul. Mynegwyd mai'r cymwysterau pennaf ar gyfer cyflawni'r gwaith yw'r awydd i rannu'r stori am lesu Grist gyda'r plant, a'r brwdfrydedd i gyflawni'r gwaith. Soniwyd am adnoddau'r Cyngor Ysgolion Sul sydd i'w cael ar y we (www.ysgolsul.com). (f) Cyfraniadau'r eglwysi i Goleg yr Annibynwyr Cymraeg. Cytunwyd fod angen trefnu'r casgliad hwn gan nad oedd cyfraniadau wedi bod o'r Cyfundeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

6. Ymatebion pellach i holiadur a ddosbarthwyd i eglwysi'r Cyfundeb.

Adroddiad y Parchg Ron Williams. Nodwyd ganddo yr angen i goncro negyddiaeth a chofio'r gobaiith sydd ymhlyg yn ein galwad fel pobl Dduw. Mae nifer o gynlluniau addawol gan yr eglwysi ar gyfer y dyfodol, ac mae hynny'n galonogol lawn. Bydd angen, yn awr, dal gafael yn yr hyn oedd yn dda yn y cyfnod cyn Covid-19, ac ychwanegu atynt yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu yn ystod y pandemig. Dylid meddwl, erbyn y cyfarfod nesaf, am weithgarwch newydd y gellid ei gyflawni yn ein heglwysi, a dod i'r cyfarfod i rannu'r syniad a'r gweddill ohonom. Awgrymir y dylai pob eglwys fynd ati i feistrolia a defnyddio Zoom a chyfryngau tebyg er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r holl aelodau, beth bynnag eu hamgylchiadau. Gall y cyfryngau newydd hyn fod yn fodd i alluogi cleifion, ac eraill sy'n gaeth i'w cartrefi, i ymuno â'u cyd-aelodau mewn oedfaon o fawl. Dyma gryfder y cyfryngau hyn ac mae angen iddynt ddod yn rhan o batrwm bywyd yr eglwysi.

7. O gofio'r sefyllfa yn Wcráin, darllenodd y cadeirydd emyn Llywelyn C. Huws (1893–1980):

Dragwyddol Dduw, sy'n Dad holl deulu'r llawr, erglyw ein cri yn ein cyfyngder mawr, yn nos ein hadfyd rho i'n weled gwawr dy heddwch di.

Daeth y cyfarfod i ben gyda'r Fendith.


(Allan o Llais y Tabernacl, Porthaethwy Mawrth 2022)

Diflanedig

Rydym ers llawer blwyddyn yn ymwybodol o ddiodefaint Cristnogion a'r Eglwys erlidiedig. Diolch am waith Cymdeithas Barnabas, Cristnogion yn erbyn poenydio ac Amnest Rhyngwladol yn tynnu ein sylw at hyn. Daeth y cyfan yma'n amlwg i mi wrth ddarllen cyfrol *The Vanished: The Twilight of Christianity in the Middle East*.

Difancoll

Mae'r awdures Janine di Giovanni yn newyddiadureg o Gristion ac yn llenor gwych. Mae'n ysgrifennu am rai o'r gwledydd a fu'n feithrinfa Cristnogaeth ar lannau arfordir Gogledd yr Affrig a'r Ewffrates ac ar draws y Dwyrain Canol ac Arabia. Mae'n rhybuddio y bydd Cristnogaeth yn mynd i ddifancoll a hynny mewn gwledydd a fu'n grud i'r ffydd. Y gwledydd sy'n cael eu heffeithio fwyaf yw yr Aifft, Syria ac Irac. Y prif reswm am hyn yw oherwydd y rhyfeloedd ac ymosodiadau mudiadau fel ISIS sydd wedi gorfodi pobl i ymadael eu cynefin. Dywed yr awdures fod y bygythiadau 360 gradd.



Mae di Giovanni yn adrodd storiâu personol sydd yn dangos gwroldeb eithriadol.

Nicodemus

Un o'r hanesion hynny yw am Monsignor Nicodemus Sharaf (enw da i'n hatgoffa o'r naratif yn Efengyl Ioan am y cyfarfyddiad rhwng Nicodemus ac Iesu Grist liw nos). Mae Nicodemus Sharaf yn Archesgob yr Eglwys Unionged ym Mosul, Syria, ac ef oedd yr offeiriad olaf i adael y ddinas. Trigodd ei deulu yno ers cenedlaethau ac roedd yn benderfynol na fyddai'n symud oddi yno am ei fod yn fan pwysig yn hanes Cristnogaeth. Ceisiodd aros yn Mosul fel symbol o herfeiddiad. Yn y diwedd gorfu iddo ymadael gan gario o dan ei gesail lawysgrif Aramaeg oedd yn bum cant oed. Cyfarfu â'r awdur ac wedi i Mosul gael ei rhyddhau yn 2017 (ac roedd yn dal i alaru am yr adeiladau cysegredig, y creiriau a'r testunau a adawodd ar ôl ac a losgwyd yn ulw gan ISIS) meddai'n gadarn 'Ond ni allant ddwyn Duw oddi wrthym. Maen nhw wedi dwyn popeth,' ac fe ailadroddodd, 'ond nid Duw.'

Bydded inni yn ein gweddïau o eiriolaeth o Sul i Sul weddïo dros ein cyd Gristionogion sy'n cael eu herlid.

Gareth Morgan Jones

Rhyfel Wcráin – Apêl Ddyngarol Cymorth Cristnogol



Wrth i luoedd arfog Rwsia barhau i daro dinasoedd Wcráin yn galed, gan ddinistrio adeiladau a chartrefi a chreu ffoaduriaid wrth y miliynau, mae partner Cymorth Cristnogol yn gweithio ar y ffin rhwng y wlad a Hwngari.

Gan fod y ffoaduriaid wedi gorfod gadael yn sydyn, nid oes ganddynt ddim o'r angenrheidiâu sylfaenol gyda hwy, ac felly mae cyflenwi bwyd, diod, citiau hylendid a lloches yn hollbwysig.

Mae'r partner – Hungarian Interchurch Aid – eisoes wedi anfon 28 tunnell (gwerth 400,000 ewro) o nwyddau, yn cynnwys bwyd a dŵr. Mae HIA wedi bod yn gweithio yn Wcráin am 25 mlynedd ac yn fwyaf diweddar wedi bod yn helpu gydag ymateb i'r pandemig.



Mae miloedd o ffoaduriaid ar draws Wcráin yn ceisio lloches mewn gwledydd eraill. Llun gan HIA.

Meddai Patrick Watt, pennaeth Cymorth Cristnogol, 'Mae Wcráin yn wynebu trychineb ddyngaroll. Yn dilyn wyth mlynedd o ryfela, mae miloedd o fywydau wedi eu colli a channoedd o filoedd wedi eu dadleoli. Mae'r rhyfel presennol yn gosod llawer mwy mewn perygl.'

Gallai rhodd ariannol o £10 gyflenwi citiau hylendid i un person am fis. Gallai £50 roi blancedi i bedwar teulu. Gallai £100 roi bwyd brys i ddau deulu am fis.

I gyfrannu at Apêl Cymorth Cristnogol ewch i: <https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/ukraine-crisis-appeal>

Eisteddfod yr Urdd, Sir Dinbych 2022: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul am 7.00y.h. nos Fercher, 6 Ebrill, yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych eleni.

Wedi gohirio'r Eisteddfod y ddwy flynedd ddiwethaf hyn, mae'n gyffrous dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, gyda'r cyhoeddiad hefyd y bydd mynediad am ddim i bawb eleni.

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd rhwng 30 Mai a 4 Mehefin ar gyrion tref Dinbych, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned

yno, ynghyd ag uned arall gan Gymorth Cristnogol.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, ac i drafod pa weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y pabell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd yn y stondin i goesawu a chynnal gweithgareddau fel gwneud bathodynau a pheintio wynebaw. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aleddavies@cytun.cymru.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 27 Mawrth, am 7:30yh
(ai-ddarlledir am 11:30yh
y Sul canlynol)

Yr wythnos hon byddwn yn nodi Sul y Mamau. Cawn glywed gan fam o Gwm-twrch sydd wedi teimlo tristwch yn ogystal â llawenydd ar y Sul yma, a bydd Nia ym Mangor yn clywed sut mae ffydd wedi bod yn gymorth i un fam wrth iddi fagu ei phlant. Daw'r canu o Lanelli, Treboeth, Caerdydd, Lerpwl a Sain Dunwyd.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 27 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp
Cenhedloedd byd yw testun emynau'r rhaglen heddiw yn y gyfres ar amrywiol themâu gydag R. Alun Evans.

Oedfa Radio Cymru
Sul, 27 Mawrth, am 12:00yp
Gwasanaeth Sul y Mamau yng ngofal Laura Karadog, Pontyberem.



Dydd Gweddi'r Byd 2022

Merched Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon oedd yn gyfrifol am wasanaeth Dydd Gweddi'r Byd a drefnwyd eleni ar y thema: 'Oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' (Jeremeia 29:11). Bu cyfeiriadau arbennig at edifeirwch ein gwledydd am ein rhan yn gormesu gwledydd eraill ar hyd y canrifoedd. Cafwyd hefyd weddiâu arbennig dros bobl Wcráin,

ac roedd llawer iawn o'r byrddau a baratowyd fel ffocws ar gyfer y gwasanaeth yn cynnwys llieniau glas a chennin Pedr, sef lliwiau baner Wcráin. Dyma rai lluniau o fannau gwahanol yng Nghymru a fu'n cynnal y gwasanaeth arbennig hwn yn ystod penwythnos cyntaf Mawrth eleni.



Gwasanaeth undebol eglwysi Cymraeg Caerdydd yn y Tabernacl



Recordio'r gwasanaeth yn Llanuwchllyn



Oedfa undebol hybrid yn Eglwys Crist, Caerfyrddin



Capel Pisgah, Talgarreg



Y rhai gymerodd ran yn y gwasanaeth dwyieithog yn Soar, Nercwys



Capel Hermon, Cynwil, Sir Gâr



Y bwrdd wedi ei osod yn y gwasanaeth Cymraeg yn Eglwys Mechell, Cemaes, Môn.



Capel Bryngwenith, Henllan, Castellnewydd Emlyn



Capel Brynmoriah, Brynhoffnant



Cana, Bancyfelin, Sir Gaerfyrddin



Y bwrdd wedi ei hulo'n barod yn Seion, Capel Seion ger Aberystwyth

Myfyrdod y Grawys

Cyfes o chwe astudiaeth gan Gyngor yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

Grawys 4

Darllen Eseia 55:4–9



Llun: Dal yreiliad gan Angela/flickr

Edrych, rhois ef yn dyst i'r bobl, yn arweinydd a chyfarwyddwr i'r bobl. Edrych, byddi'n galw ar genedl nid adwaeni, a bydd cenedl nad yw'n dy adnabod yn rhedeg atat; oherwydd yr ARGLWYDD dy Dduw, o achos Sanct Israel, am iddo dy ogoneddu. Ceisiwch yr ARGLWYDD tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r un ofer ei fwriadau, a dychwelyd at yr ARGLWYDD, iddo drugarhau wrtho, ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau'n helaeth. Oherwydd nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr ARGLWYDD. Fel y mae'r nefoedd yn uwch na'r ddaear, y mae fy ffyrdd i yn uwch na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi.

1 Rhywbeth i'w drafod gyda'n gilydd

*Weithiau byddwn yn ymddwyn ac yn siarad fel petaem yn gyfarwydd â meddwl Duw ac yn gwybod beth mae Duw ei eisiau. Sut mae'r detholiad hwn o'r Ysgrythur yn ein hatgoffa sut y dylem fod yn wyliadwrs rhag mynd yn 'fi fawr'?

*Yn stori'r Santes Gwenffrewi, sut ydych chi'n meddwl fod pobl a glywodd ei hanes dros y blynyddoedd wedi ymateb i wyrth

ei hadfywiad a gwyrt y ffynnon newydd o ddŵr?

2 Rhywbeth i adfyfrio arno

*Dywed y detholiad, 'Gadewch [i'r drygionus] ddychwelyd at yr Arglwydd, iddo drugarhau iddo'. Lle'r ydych chi'n gweld hyn yn digwydd mewn cymdeithas heddiw? Sut mae pobl heddiw yn dysgu am edifeirwch a sut y gall eu bywydau gael eu trawsnewid?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, daw'r ffynnon sanctaidd yn gyrchfan pererindod a gwellhad. Pa fath o drawsnewidiad ydych chi'n meddwl y bydd pobl yn disgwyl ei brofi yno a beth fyddai eu cymhellant dros fynd i geisio manau sanctaidd?

3 Rhywbeth i'w wneud

*Mae'r darn hwn yn ein hatgoffa ein bod yn dystion i Iesu a bod ein tystiolaeth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl eraill pan welant beth mae Duw yn ei wneud. Pa UN peth fedrwrch chi ei wneud (neu ei gryfhau) yn eich sefyllfa eich hun i fod yn dyst cadarnhaol i'r Iesu a pha ddarpariaeth wneuch chi fel y gall pobl ddod i weld sut beth yw'r ffydd Gristnogol?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, gadawyd craith neu farc amlwg ar ei gwddf lle torrwyd ei phen a'i adfer yn wyrthiol. Pa UN arwydd gweledol ychwanegol fedrwn ni ei wisgo, neu osod yn ein cartrefi, neu fod gyda ni yn ein bywydau beunyddiol, fyddai'n ei gwneud yn amlwg i eraill ein bod yn Gristnogol?

4 Treiddio'n Ddyfnach

*Mae'r darlleniad hwn o lyfr Eseia yn dweud wrthym am geisio'r Arglwydd a galw arno, oherwydd bod Duw yn ein tywys ar hyd y llwybr cywir. Pryd gwnaethoch chi adael i Dduw eich tywys ac i ble mae hynny wedi eich arwain hyd yma? Ble gall Duw eich arwain yn y dyfodol?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae Sant Beuno yn cyfarwyddo ei thaith ysbrydol tuag at fywyd sydd wedi ymroi yn llwyr i Dduw. Sut gall ei stori eich annog chi i geisio'r Duw sydd yn wastad yn ein synnu?

5 Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,
Safwn ger dy fron, mewn parchedig ofn a gwyleidd-dra.
Gwyddom fod dy ddoethineb di y tu hwnt i'n crebwyll ni
a bod dy ddirgeleddau'n llenwi'r cread crwn.
Helpa ni i fod yn ddrych i'th ogoniant,
fel y gall eraill, trwom ni, gael cipolwg ar dy drugaredd
a throi tuag atat lle'r wyt ti'n aros i'w croesawu.
Amen.



Llun: Hchc2009 via Wikimedia Commons, CC BY-SA 4.0

Colofn Geir-iau

Diwrnod Cenedlaethol y Samariad Trugarog

Dethlir Diwrnod Cenedlaethol y Samariad Trugarog neu *National Good Samaritan Day* yn flynyddol ar 13 Mawrth, ac er ei fod yn ddatliad sydd yn deillio o'r Unol Daleithiau, mae'r syniad yr un mor berthnasol ar draws y byd. Dyma ddiwrnod lle anogir caredigrwydd ac anhunanoldeb, drwy gyflawni gweithredoedd sydd yn helpu ac yn estyn llaw i eraill.

Y Samariad Trugarog

Daw Dameg y Samariaid Trugarog o Efengyl Luc, Pennod 10 Adnodau 25–37. Dywed Iesu am Iddew a adawyd i farw gan ladron, a'i anwybyddu gan ei bobl ei hun. Ond, daw cymorth annisgwyl o'r diwedd gan Samariad. Ni fyddai'r Iddewon a'r Samariad fel arfer yn gyfeillgar â'i gilydd, ac felly roedd trugaredd y dieithryn yn enghraifft o anhunanoldeb mawr. Ar ddiwedd y ddameg, mae Iesu yn rhoi gorchymyn i wneud yr hyn wnaeth y Samariad.

Catherine 'Kitty' Genovese

Mae Diwrnod Cenedlaethol y Samariad Trugarog yn cael ei gysylltu â marwolaeth Catherine 'Kitty' Genovese a gafodd ei llofruddio ar 13 Mawrth, 1964 yn Efrog Newydd. Dadleua nifer o haneswyr bod rhai wedi clywed gweiddi, gyda rhai papurau newydd yn honni bod cymaint â 38 o bobl yn dystion i'r digwyddiad, er na ddaeth neb i'w chynorthwyo. Yn dilyn y digwyddiad trasig, datblygwyd theori seicolegol 'effaith y gwylwyr', sydd yn tybio ein bod i gyd yn cymryd yn ganiataol mai rhywun arall fydd y Samariad Trugarog mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Câr dy gymydog

'Câr yr Arglwydd dy Dduw ... a châr dy gymydog fel ti dy hun.' Ar y ddau orchymyn hyn y mae'r holl Gyfraith a'r proffwydi yn dibynnu.

'Câr dy gymydog.' Nid yw'n fawr o syndod mai dyma un o orchymynion

pwysicaf y Beibl, sydd heb amheuaeth yn egwyddor foesol bwysig i bob cymuned. Fel myfyrwyr sydd bellach yn ein tymor olaf yn astudio'r Gyfraith, cawsom ein synnu ar yr ochr orau o weld bod yr adnod yn dod law yn llaw gyda chyfraith Camwedd, a ni cheir enghraifft well o'r adnod nag yn achos Donoghue v. Stevenson. Yn yr achos hwn, daeth y rheol o 'garu eich cymydog' yn gyfraith.

Yn 1928, yfodd Mr May Donoghue botel o gwrw sinsir mewn caffi yn Paisley, Swydd Renfrew. Heb yn wybod iddi hi, na neb arall, roedd yna falwoden wedi marw yn y botel. Aeth hi'n sâl ar ôl hynny ac aeth â'r gwneuthurwyr y cwrw sinsir, Mr Stevenson, i gyfraith er mwyn hawlio iawndal. Daliodd Tŷ'r Arglwyddi bod gan y gwneuthurwr ddyletswydd tuag ati fel cwsmer a esgeuluswyd gan ei fod wedi methu sicrhau diogelwch y cynnyrch a fyddai'n arwain at niweidio cwsmeriaid. Ac yn nhyb Tŷ'r Arglwyddi roedd perthynas ddigon agos rhwng y defnyddwyr a'r cynhyrchwyr iddynt gael eu hystyried yn 'gymdogion'. Pwysleiswyd nad oeddech i anafu eich cymydog, ac y byddech yn cymryd gofal rhesymol i osgoi gweithredoedd y byddai'n debygol o wneud hyn. Mae'n amlwg bod 'Egwyddor Cymydog' yr Arglwydd Atkin yn yr achos hwn yn adlewyrchu'r hyn yr oedd Iesu'n ei bregethu, ac mae'n un sydd yn parhau i gael ei ddefnyddio yn y llysoedd hyd heddiw.

Gwneud y peth anodd

Mae'n bwysig cofio nad yw caru eich cymydog bob tro yn beth rhwydd. Mae'n gofyn i chi fod yn anhunanol, gan ddangos trugaredd, caredigrwydd a maddeuant tuag at eraill. Er bod y gair 'cymydog' yn aml yn cael ei gysylltu gyda'r person sydd yn byw drws nesaf, mae'n golygu llawer mwy yn y cyddestun hwn. Mae'n golygu caru eich cydweithwyr, eich ffrindiau, eich teulu, a'r rheini sy'n agos atoch. Yn wir, rhaid i ni fynd allan o'n ffordd i ddangos cariad tuag at eraill, hyd yn oed at y rheini sy'n wahanol iawn i ni. Ond, yn bwysicach fyth, er mwyn caru eich cymydog, rhaid i chi garu chi eich hun, gan gyfleu'r cariad hwnnw at eich cymdogion. Yn Efengyl Luc, pan ofynnwyd i'r Iesu beth oedd angen gwneud i gael bywyd tragwyddol, ymatebodd gyda'r gorchymyn hwn,

gan ychwanegu, 'Gwna hynny a chei di fywyd.'

Caredigrwydd tuag at ddinasyddion Wcráin

Ynghanol tristwch y rhyfel yn Wcráin, mae gwledydd o bell ac agos wedi dangos undod gyda'r wlad trwy weddio ac anfon cymorth ariannol. Mae gwledydd cyfagos megis Gwlad Pwyl a Hwngari wedi dangos caredigrwydd a chariad at eu cymdogion drwy ddarparu bwyd a dillad cynnes i ddinasyddion sy'n croesi'r ffin. Mae'r croeso cynnes sydd yn eu disgwyl wrth iddynt ffoi o'u gwlad yn debyg i ddameg y Samariad Trugarog. Mewn cyfnod o ansicrwydd, gwelwn sut mae Samariad Trugarog ar draws y byd yn cynorthwyo dinasyddion y wlad, gan gynnig nerth a gobaith iddynt.

Rydym ni yma yng Nghymru hefyd wedi dangos ein cefnogaeth drwy anfon dillad, bwyd ac offer meddygol i Wcráin, ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £4 miliwn o gymorth ariannol a dyngarol i'r wlad. Mae eu diolch yn fawr, ac ymatebodd un ddynes o Wcráin gan ddweud eu bod nhw'n teimlo 'fel petai cariad yn cael ei bentyrru arnom.' Yn wir, mewn amser o anobaith mawr, mae dangos caredigrwydd tuag at eraill yn gallu mynd yn bell. Mae'n bwysig cofio caru ein cymdogion, a gweddio dros y llai ffordus. 'Dos dithau a gwna'r un fath.'

Lowri a Heledd Jones



Efeilliaid o Bontarddulais yw Lowri a Heledd Jones, sydd yn eu tymor olaf yn astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd. Maen nhw'n aelodau yng nghapel Hope-Siloh, Pontarddulais.

Barn Annibynnol

Pobol Capal

'Pam bod pobol capal yn meddwl bod nhw'n well na pawb arall, Moi?' dyna gwestiwn Callum, bachgen 17 oed, wrth ei fêd, Moi Saim, ar ddechrau'r nofel *Hela*, gan Aled Hughes (Lolfa, 2021.)



Mae Callum jest â thorri ei fol eisiau gadael pentref Porth Milgi sy'n llawn 'rhagrithwyr, cul, dosbarth canol' a gweinidog sy'n dod '... lawr o'i gastell yn y Mans i weld y plwyfolion (sic) oddi tano.'

Ro'n i'n synnu gweld ar dudalen 16 bod Callum yn defnyddio Instagram a TikTok. Ro'n i wedi cymryd o naws dechrau'r nofel, glasnau ffrindiau Callum: Babo, Jac-Do a Saim Bach, y sôn am Dafydd Wigley a'r ffaith mai Doreen yw enw mam 33 oed Callum, mai tua'r 1970/80au roedd hi'n digwydd.

Pobol gul a rhagrithiol?

Ond pan sylweddolais mai nofel gyfoes oedd hi, roedd gen i ddiddordeb mewn gwybod sut fyddai 'pobol capal' gul a rhagrithiol y 2020au yn cael eu portreadu.

Mae gennym nifer o enghreifftiau yn llenyddiaeth yr 20fed ganrif:

Yn y gerdd 'Gwladys Rhys' (1922), gan W. J. Gruffydd, sy'n dechrau: 'Seiat, Cwrdd Gweddi, Dorcas, a Chwrdd Plant,

A 'nhad drwy'r dydd a'r nos mor flin â'r gwynt ...'
cawn wybod fel y llygrwyd bywyd Gwladys Rhys gan y sefydliad capelyddol rhagrithiol.*

Yna, yn *Tywyll Heno* (1962), Kate Roberts:

... gwelwyd sut y dymchwelir y ddelwedd ddyrchafol o'r gymuned ymneilltuol bur a glân wrth i Bet

Jones, gwraig y gweinidog, ddiodef o iselder ysbryd difrifol yn sgil 'rhagrith' a 'syrrfed' y gymdeithas gapelyddol.*

Yn *Dyddiadur Dyn Dŵad*, a ymddangosodd fel cyfres ym mhapur bro'r *Dinesydd* tua 1975, cawn helyntion Goronwy Jones, Cofi yng Nghaerdydd, gan sôn am dafarndai, y dosbarth canol snobyddlyd, a phlant Ysgol Rhydfelen yn siarad Saesneg. Un diwrnod, mae menyw ag ambarél yn ymosod ar Goronwy am ei fod yn 'gwneud ensyniadau enllibus am ieuentid da ein prifddinas, yn llymeitian ei ffordd drwy fore ei oes, ac yn defnyddio geirfa nad yw'n un dim ond sen ar ein traddodiad Cristnogol Cymraeg ...' cyn '... dechra 'mheltio fi hefo'r ambarél.' Ac roedd ymateb rhai pobl go iawn i'r golofn bron yr un mor eithafol!

Ond beth am heddiw?

Go brin fod yr un o'r uchod yn disgrifio'n cymdeithas ni heddiw. Beth mae *Hela* yn ei ddweud wrthym am 'bobol capal' 2020 felly? Mae gan amryw o'r cymeriadau farn bendant. Yn ogystal â bod yn gul, yn rhagrithiol ac yn hunanbwysig, mae'n debyg bod capelwyr yn 'ffyrnig am edrach ar ôl eu pobol 'u hunan,' yn ffugbarchus, yn feirniadol, yn ddauwynebog ac yn cyfri pobl sy'n mynd i'r dafarn yn israddol! Ai dyma sut mae pobl yn meddwl am gapelwyr heddiw go iawn? Yn wir, ydi pobl yn meddwl amdanon ni o gwbl – yn enwedig bechgyn 17 oed?

Efallai 'mod i'n naif ond, hyd y gwela i, dydi capeli heddiw ddim yn llawn rhagrithwyr, ffugbarchus. Yn fy mhrofiad i, mae pobl yn mynd i'r capel heddiw o ddewis, nid er mwyn cael rhyw rym, statws neu barchusrwydd, ac mae ein cynulleidfaoedd o leiaf mor agored eu meddwl â phobl eraill. Mae'n siŵr bod ambell un hunanbwysig yn ein plith o hyd ond eu problem nhw yw hynny yn hytrach na bod yn nodwedd gyffredinol, ie? Mae cyflwyno 'pobol capal' fel un corff o bobl unfurf, monolithig, yn ystrydeb ddifeddwl, henffasiwn – fel beirniadu ffarmwrs ac athrawon *en bloc*.

Yn rhyfedd iawn, er yr holl gyfeiriadau at 'bobol capal' does *dim un* enghraifft yn *Hela* o'r ffordd maen nhw'n ymddwyn i haeddu eu pardduo mor gyson. Yr unig gapelwr y down ar ei draws yw'r Parchedig John Parry, a go brin mai twtsh o hunanbwysigrwydd yw pechod mwyaf hwnnw! (Ond falle y down ni 'nôl ato fe ryw dro eto.)

Y bwgan mwyaf

Rwy'n deall pwynt yr awdur yn cefnogi'r *underdog* ond does bosib nad capelwyr yw'r bwgan mwyaf mewn ardal sy'n 'dlawd iawn yn y gaeaf ac

ardal sy'n berwi â chyfoeth yn yr haf.' Go brin fod cyflwyno crefyddwyr fel grym mewn cymdeithas yn adlewyrchu ein sefyllfa ni heddiw.

Yn ôl Aled Hughes mewn sgwrs ar y podlediad #CaruDarlenn, bu'r nofel mewn bocs am wyth mlynedd cyn iddo ailgydio ynddi yn ystod y cyfnod clo. Tybed a oedd y fersiwn

wreiddiol wedi'i gosod yn yr 1970au/80au ond iddo benderfynu ei symud i'r presennol er mwyn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y datgeliad mawr ar y diwedd (darllenwch y nofel!) ond ei fod heb ddiweddarau bron ddim arall?

A beth oedd ateb Moi Saim i gwestiwn Callum ar ddechrau'r nofel? 'Dydyn nhw ddim gwaeth a dim gwell na chdi a fi, sdi.' Ond mae pawb yn gwybod hynny, siawns – neu ydyn ni?!

*Traethawd PhD Mair Lenny Turner, Bangor, 2020

Siân Roberts

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Wcráin

Y mae'r sefyllfa ddychrynlyd yn parhau i ddatblygu a dirywio'n ddyddiol yn Wcráin wrth i Rwsia ddal ati gyda'u hymosodiadau marwol. Daliwch at i weddio yn ddyddiol. Mae arweinyddion Cristnogol Wcráin yn gweddio bob dydd am 3 o'r gloch y pnawn ac yn darllen geiriau Salm 31. Ymunwn gyda hwy i erfyn am heddwch; am ddoethineb i arweinyddion y gwledydd ac i Putin dynnu ei filwyr yn ôl.

Gweddiwn

'Dw i'n troi atat ti am loches, O ARGLWYDD;
paid gadael i mi gael fy siomi.
Rwy'ti'n gyfiawn, felly achub fi.'
(Salm 31.1, BNET).

Arglwydd Dduw, rydym yn dod atat ti heddiw i weddio am heddwch yn Wcráin. Gad i dy law fod dros y trafodaethau. Gweddiwn i ti fod gyda'r rhai sydd dan warchae ac yn byw mewn braw. Yn enw Iesu. Amen.



Ethyglau, llythrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddwr yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Y Golofn Ryngwladol

Dros y ffin i Loegr yr awn unwaith eto y tro hwn, i gwmmi Christopher Damp, un a fu'n ymgodymu â'r un problemau a llawer ohonom ninnau wrth iddo ystyried natur cenhadaeth yr eglwys a'r modd i gyrraedd pobl nad oes ganddynt gysylltiad ag eglwys.



Gweinidog Bunyan Meeting House yn Bedford, yr eglwys ble yr oedd John Bunyan yn weinidog o 1672 hyd 1688, yw Christopher. Magwyd ef yn Swydd Gaerhirfryn a'i hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg Bala-Bangor. Yno y dysgodd Gymraeg, a thra bu'n byw yng ngogledd Cymru bu'n aelod o Eglwys Annibynnol Bethania, Bethesda. Yn ystod ei yrfa, y mae wedi gwasanaethu mewn eglwysi yn Essex, Llundain a Bedford, a phob amser wedi bod yn gyfaill da i ni, Annibynwyr Cymru. Dyma sydd ganddo i'w ddweud.

Geraint Tudur

John Bunyan

Eleni, mae'n 350 o flynyddoedd ers i John Bunyan gael ei ryddhau o'r carchar a derbyn galwad i fod yn fugail yr Eglwys Annibynnol yn Bedford, yr eglwys sydd erbyn hyn yn cael ei hadnabod fel 'Tŷ Cwrdd Bunyan' (Bunyan Meeting). Cafodd yr eglwys ei chynnull ym 1650 dan weinidogaeth John Gifford, ac ymunodd Bunyan â hi yn dilyn ei dröedigaeth ym 1653. Wedi adferiad y Goron ym 1660, dioddefodd yr eglwys erledigaeth, a charcharwyd Bunyan am ddeuddeg mlynedd am bregethu. Defnyddiodd y cyfnod hwn i ysgrifennu ac y mae *Taith y Pererin*, ei lyfr enwocaf, wedi ei gyfieithu i fwy o ieithoedd nag unrhyw lyfr arall, ar wahân i'r Beibl a Harry Potter!

Mae stori Bunyan yn enghraifft loyw o ffyddlondeb i Grist ac o ymroddiad i achos yr efengyl. Fel eglwys, yr ydym wedi ein bendithio â threftadaeth Gristnogol gyfoethog a'n bwriad yw rhannu'r ffydd hon mewn amrywiol ffyrdd heddiw, fel y gwnaeth Bunyan yn ei ddydd ef.

Amgueddfa

Mae Amgueddfa John Bunyan yn rhan o'r safle y saif y capel arno a chawn groesawu rhai miloedd o bobl yno bob blwyddyn. Mae hefyd siop goffi yn rhan o'r adeiladau ac yn darparu lle ar gyfer cymdeithasu yn ogystal â choffi uwchraddol! Yn ddiweddar, yr ydym wedi bod wrthi'n datblygu gofod islaw ein neuadd yn ganolfan gelfyddydol sy'n cynnwys adnoddau ar gyfer amrywiol weithdai yn ogystal ag oriel. Yng 'nghyfnod clo' y pandemig, aeth ein gweithdai dydd Mercher, oedd yng ngofal ein hartist preswyl ar-lein, a dod yn ffynhonnell cysur i amryw yn y gymuned oedd wedi teimlo'n ynysig ac unig.

Ychydig cyn y Nadolig, cafwyd Arddangosfa o Bortreadau Anghydfurfwr yn yr oriel yn esbonio hanes anghydfurfiaeth grefyddol trwy gyfres o baentiadau sy'n rhan o gasgliad celf y Llyfrgell Gynulleidfaol (Congregational Library). Mae'n syndod cyn lleied y mae pobl yn ei wybod am Gristnogaeth heddiw, heb sôn am Anghydfurfiaeth! Bydd ein



harddangosfa nesaf yn cael ei threfnu gan goleg lleol ac yn arddangos enghreifftiau o waith y myfyrwyr.



Pontio

Mae prosiect yr Amgueddfa, y Siop Goffi a'r Basement@Bunyan, i gyd yn gyfryngau yr ydym trwyddynt yn ceisio sefydlu perthynas â'n cymuned leol, a rhannu gyda hi beth o'r hyn y mae ffydd yng Nghrist yn ei olygu i ni. Comisiynwyd ni gan Grist i fynd i'r holl fyd a phregethu'r Efengyl. Nid yw'n cenhadaeth bob amser yn llwyddo o ran niferoedd ar y Suliau ond mae'n llwyddo i ddod a miloedd i mewn i'r adeilad bob blwyddyn gan roi cyfle i ni ymwneud ag o leiaf rai ohonynt. Trwy'r cysylltiad hwn, llwyddir i sefydlu perthynas ac y mae rhai erbyn hyn sy'n ystyried Bunyan Meeting fel 'eu heglwys hwy'.

Y mae lluo o heriau yn wynebu'r eglwys heddiw ond y mae hefyd lu o gyfleodd. Fel eglwys, mae angen i ni fod yn fwy creadigol a mentrus pan fyddwn yn meddwl am genhadaeth ac ymestyn allan. Gadewch i ni gymryd y cyfleodd hynny y mae Duw yn eu rhoi i ni a'u defnyddio, yn ein cymunedau, i gyrraedd eraill a'u gwneud yn ymwybodol bresenoldeb a chariad Crist.

Christopher Damp